

Ymateb y Llywodraeth: Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2021.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Mae ymateb gan y Llywodraeth wedi ei wahodd mewn cysylltiad â'r ddau bwynt a godwyd yn yr adroddiad. Mae'r ymatebion wedi eu nodi isod.

1. Mae'r rheolau ar roddion y tu allan i gwmpas y Cod ac er mwyn peidio ag awgrymu i'r darllenydd fod rhoddion o'r fath yn dod o fewn ei gwmpas, teimlwyd mai doeth fyddai peidio â darparu manylion y rheolau ar roddion yn y Cod. Teimlwyd bod y cyfeiriad at y rheolau ar roddion ym mharagraff 1.20 yn ddigonol i roi gwybod i'r darllenydd fod rhoddion o'r fath yn cael eu hystyried hefyd ond y byddai darparu manylion pellach yn awgrymu eu bod yn dod o fewn cwmpas y Cod. Nid oes unrhyw fwriad i ddiwygio'r Cod.

Rydym wedi codi eich sylw gyda'r Comisiwn Etholiadol a ddrafftiodd y Cod ac wedi cael gwybod bod canllawiau ar reolau ar roddion ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiadol a phan gyhoeddir y Cod Ymarfer, bydd nodyn ynddo i dynnu sylw at y canllawiau ar roddion.

2. Rydym wedi cysylltu â'r Comisiwn Etholiadol ynghylch y ffaith nad yw'r Cod yn cyfeirio at y drosedd o arfer llwgr sy'n ymwneud ag ymgeisydd etholaethol neu ei asiant o dan erthygl 53(5) o Orchymyn 2007. Mae'r Cod yn cyfeirio at y drosedd o arfer llwgr sy'n ymwneud ag ymgeiswyr ar restr ranbarthol o dan erthygl 54(3). Derbynnir y gellid bod wedi cyfeirio at y ddwy erthygl yn y Cod ond nid yw'r ffaith nad oes cyfeiriad at y drosedd o dan erthygl 53(5) yn tanseilio'r Cod a cheir cyfeiriad at drosedd o arfer llwgr yn y Cod.

Nid yw'r ffaith nad oes cyfeiriad at hyn yn y Cod yn tynnu oddi ar y ffaith bod y drosedd wedi ei chynnwys yn y ddeddfwriaeth, a chyfeirir ati yng Nghanllawiau'r Comisiwn. Bwriedir i'r Cod ei hun gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r Canllawiau ehangach a gyhoeddir gan y Comisiwn. Bydd y cyfeiriad deddfwriaethol at y drosedd yn cael ei wneud pan gaiff y Cod ei ddiweddarau nesaf ond ar hyn o bryd cyfeirir ati yn rhywle arall ar wefan y Comisiwn Etholiadol.